

Cyflymu ein

System Cynllunio a Chaniatáu



Mae tri rhwystr strategol yn atal Cymru rhag sicrhau dyfodol ynni glân: ein rhwydwaith grid, y system cynllunio a chydysynio, a pharodrwydd porthladdoedd a chadwyni cyflenwi. Mae gan bob un ei heriau unigryw ond maent yn effeithio ar ei gilydd ac mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw ar y cyd.

Mae'r papur briffio hwn yn tanlinellu'r angen hollbwysig i Gymru gyflymu'r broses o drosglwyddo i ynni adnewyddadwy, gan amlygu **diffygion o fewn y fframwaith cynllunio presennol**. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r ysgogiadau sydd eu hangen i ddatrys hyn. Mae'n trafod y manteision sylweddol a allai ddod yn sgil goresgyn y rhwystrau hyn, ochr yn ochr â'r risgiau sy'n gysylltiedig â methu â gwneud hynny. Yn olaf, mae'n cloi drwy amlinellu'r camau allweddol y gall llunwyr polisi eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan gynnwys alinio polisi, mwy o adnoddau, a phrosesau symlach ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Bydd y galw am drydan glân yn cynyddu'n gyflym yn y degawd nesaf wrth i ni geisio gwresogi ein cartrefi, pweru ein cerbydau, a glanhau ein diwydiannau. Er bod targedau ac uchelgeisiau polisi Llywodraeth Cymru yn cefnogi mentrau ynni adnewyddadwy, mae'r fframwaith cynllunio presennol yn methu â chymeradwyo prosiectau ar y raddfa a'r cyflymder sy'n ofynnol. Mae hyn yn arwain at wahaniaeth sylweddol rhwng ein huchelgais i gael 100% o drydan o ynni adnewyddadwy erbyn 2035 a'r cynnydd go iawn sy'n cael ei wneud ar lawr gwlad i gyrraedd y nod hwnnw.

Mae manteision ynni adnewyddadwy yn enfawr, gan ddarparu:

- Ynni cost isel i dalwyr biliau
- Swyddi a thwf economaidd gwyrdd
- Llwybr at ddatgarboneiddio ein diwydiant trwm
- Cynlluniau budd cymunedol
- Cyllid ar gyfer rhaglenni amgylcheddol
- Diogelwch o gynhyrchu ein hynni ein hunain

Mae RenewableUK Cymru yn amcangyfrif **bod angen i Gymru osod pedair gwaith cymaint o gapasiti ynni gwynt erbyn 2035** i ddiwallu ei hanghenion trydan disgwylidiedig. Ac eto, am y drydedd flwyddyn yn olynol, rydym yn gweld llai o brosiectau ar waith. Mae'r holl arwyddion yn cyfeirio at drefn ganiatáu sy'n llusgo i stop yn hytrach na chynyddu i fodloni'r galw hwn.

- **Penderfynwyd ar lai na 50%** o geisiadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) ar amser yn 2023.
- O'r 9 prosiect ynni a wrthodwyd hyd yma, roedd bron hanner (44%) yn cynnwys y Gweinidog yn mynd yn groes i argymhelliad yr Arolygydd
- Rhwng 2020 a 2023, fe gymerodd **1,030 o ddiwrnodau ar gyfartaledd** i benderfynu ar geisiadau cynllunio gwynt ar y tir yng Nghymru.
- Mae ystadegau diweddaraf Adroddiad Cynhyrchu Ynni Cymru yn dangos **mai dim ond 44MW o gapasiti ynni adnewyddadwy a osodwyd yn 2022**, a oedd yn cynnwys dim ond un gosodiad gwynt ar raddfa ficro o 6kW. Mewn cymhariaeth, ychwanegodd yr Alban 1,621 MW o gapasiti ychwanegol yn yr un flwyddyn.

Gellir priodoli'r perfformiad gwael hwn i ddau brif ffactor: diffyg adnoddau difrifol ar gyfer ymgylchedd statudol a gwrthdaro yn y dehongliad anghyson o bolisiau ynni ac amgylcheddol Llywodraeth Cymru.

Mae oedi ac ansicrwydd yn arwain at gostau uwch a gyda'i gilydd, mae perygl y bydd Cymru'n dod yn llai deniadol a chystadleuol yn gyfle buddsoddi. Mae rôl Llywodraeth Cymru yn hollbwysig i ddenu mewnfuddsoddiad a darparu amgylchedd polisi sefydlog ac effeithiol i gefnogi gallu Cymru i gyflawni prosiectau. Gyda chyflwyniad y Bil Seilwaith (Cymru) newydd, mae'n hollbwysig ein bod ni'n cyflawni aliniad polisi clir ac ymrwymiad cadarn i wella effeithlonrwydd y broses o wneud penderfyniadau.

Beth sydd gan Gymru i'w ennill?

Mae prosiectau ynni adnewyddadwy yn darparu **buddsoddiad economaidd pwysig** i Gymru. Yn ôl Prosiectws Gwynt ar y Tir RenewableUK, gallai 2.2GW ychwanegol o ynni gwynt newydd ar y tir yng Nghymru ddarparu **£4.4bn mewn GYC a chreu 3,000 o swyddi erbyn 2030**.

Mae'r prosiectau hyn hefyd yn cynnig manteision sylweddol i gymunedau lleol a mentrau amgylcheddol, megis adfer mawndiroedd.

Fferm Wynt ar y Tir Pen y Cymoedd Farm

Wedi'i leoli yng Nghastell-nedd Port Talbot a Rhondda Cynon Taf, mae fferm wynt Pen y Cymoedd yn ariannu cynllun adfer cynefinoedd ar draws 1500 hectar ac sydd werth £3m dros 25 mlynedd. Mewn cydweithrediad â'r Prosiect Mawndiroedd Coll, mae Pen y Cymoedd wedi arwain un o brosiectau adfer mawndir mwyaf y DU.



System gynllunio sydd wedi'i diogelu ar gyfer y dyfodol

Mae swyddogion cynllunio ar bob lefel eisoes yn gweld cynnydd yn nifer y ceisiadau a rhagwelir y byddant yn cynyddu'n gyflym dros y pum mlynedd nesaf.

Cydsynio a chynllunio yw un o'r ffactorau llwyddiant mwyaf sylweddol ar gyfer parodrwydd ein porthladdoedd a'n cadwyni cyflenwi yng Nghymru. Gyda'r prosesau prydlesu a buddsoddi mewn porthladdoedd bellach ar waith ar gyfer prosiectau gwynt ar y môr sy'n arnofio yn y Môr Celtaidd, mae'r angen i gymeradwyo gwaith uwchraddio ar amser yn hollbwysig.

Mae arolwg barn diweddar yn dangos bod mwyafrif pobl Cymru yn cefnogi ffermydd gwynt ar y tir ac ar y môr, gyda 63% o bobl yn cytuno bod angen cyflymu'r broses gynllunio. Mae busnesau a chymunedau yn cydnabod eu bod ar eu colled ynghylch ynni glân a'r manteision economaidd a'r manteision ehangach cysylltiedig y gall prosiectau eu darparu.

Sut y gallwch chi helpu?

1. Dangoswch eich cymorth drwy gymeradwyo grŵp gorchwyl a gorffen annibynnol gydag arweinydd Gweinidogol o Lywodraeth Cymru yn cynnwys swyddogion y Llywodraeth a chynrychiolwyr y diwydiant. Gan weithio gyda'n gilydd, gallwn ni nodi'r achos anghenion ar gyfer darparu adnoddau ac alinio polisiau.
2. Anogwch Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros bolisi Cynllunio i ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth hon i gytuno ar y cyllid priodol ar gyfer staffio a hyfforddiant ychwanegol o fewn timau cynllunio Llywodraeth Cymru, PEDW ac awdurdodau lleol.
3. Mynnwch y wybodaeth angenrheidiol i wasanaethu eich etholwyr ar y mater hwn. Darllenwch ein Cwestiynau Cyffredin a'n hastudiaethau achos defnyddiol.

